**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026.
Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**10 Chwefror 2026**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Bydd Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026 (“y Gorchymyn”) yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (“Gorchymyn 2010”). Mae'r Gorchymyn yn nodi amgylchiadau pan na fo'n ofynnol cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (“AGC”) fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (“y Mesur”) ac sydd felly wedi eu hesemptio.

1.2 Mae bod wedi eu hesemptio rhag gorfod cofrestru yn golygu nad yw'n ofynnol i warchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd gofrestru ag AGC, cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, na rhoi sylw i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

1.3 Caiff canllawiau i gyd-fynd â Gorchymyn 2026 eu datblygu ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud a'u cyhoeddi cyn i'r Gorchymyn ddod i rym.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Gorchymyn yn nodi nifer o eithriadau i'r diffiniadau o “gwarchod plant” a “gofal dydd” yn adran 19(2) a (3) o'r Mesur, er mwyn eithrio o'r cynllun rheoleiddio ystod benodedig o drefniadau gofal i blant.

3.2 Gwneir y Gorchymyn o dan Ran 2 o'r Mesur, ac mae'n dirymu ac yn disodli Gorchymyn 2010 (O.S. 2010/2839).

3.3 Mae Rhan 2 o’r Mesur yn darparu ar gyfer cofrestru ac arolygu gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yng Nghymru gan Weinidogion Cymru. Mae AGC yn cyflawni'r swyddogaethau cofrestru ac arolygu hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

3.3 Mae adrannau 21(1) a 23(1) o'r Mesur yn darparu na chaiff person weithredu fel gwarchodwr plant na darparu gofal dydd heb gael ei gofrestru i wneud hynny gan Weinidogion Cymru yn unol â Rhan 2 o'r Mesur.

3.4 Mae adran 19 o'r Mesur yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn, i ddarparu, yn yr amgylchiadau a bennir yn y Gorchymyn, nad yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant nac yn darparu gofal dydd at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur.

3.5 Gwneir yr offeryn statudol Cymreig hwn o dan bŵer Gweinidogion Cymru yn adran 19 o'r Mesur ac mae'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Gorchymyn yw nodi amgylchiadau pan na fo'n ofynnol cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan y Mesur. Bydd y Gorchymyn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn 2010 a, thrwy wneud hynny, yn diweddaru, yn egluro ac yn diwygio'r amgylchiadau pan na fo'n ofynnol cofrestru.

4.2 Pan fo darparwr wedi ei esemptio rhag gorfod cofrestru, nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 na rhoi sylw i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ac nid yw'n cael ei arolygu gan AGC.

4.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r eithriadau a nodir yng Ngorchymyn 2010 yn dilyn argymhellion i gynnal adolygiad yn yr adroddiadau canlynol:

- Cais am Dystiolaeth mewn perthynas â Gorchymyn Eithriadau 2010 (2019)
- Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio (2022), ac
- Yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2023)

4.4 Mae'r adroddiadau a restrir ym mharagraff 4.3 yn amlinellu pryderon yn ymwneud â Gorchymyn 2010. Dyma'r pryderon: mae'r Gorchymyn yn anodd ei ddeall, yn cael effaith negyddol ar ddarparwyr cofrestredig ac ar drefniadau diogelu ar gyfer darpariaeth anghofrestredig.

4.5 Nodau'r adolygiad o'r eithriadau yng Ngorchymyn 2010 oedd:

- sicrhau bod opsiynau gofal plant yn canolbwyntio ar y plant eu hunain ac yn meithrin hawliau plant i chwarae, ymlacio, dysgu ac ymuno â grwpiau a sefydliadau sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion a'u diddordebau,
- sicrhau bod yr eithriadau sydd ar waith yn gymesur ac yn esemptio'r rhai nad oes angen iddynt gofrestru ag AGC,
- hyrwyddo mesurau diogelwch cadarn i blant ym mhob lleoliad gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau, a fydd yn cyfrannu at gadw plant yn saff ac at sicrhau eu bod yn cael gofal priodol,
- cefnogi gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau fforddiadwy, hygyrch a hyblyg i deuluoedd er mwyn darparu ar gyfer anghenion,

diddordebau a gofynion amrywiol ledled Cymru. Ni chaiff unrhyw newidiadau i'r eithriadau leihau'r gofal plant, y cyfleoedd chwarae na'r gweithgareddau sydd ar gael neu sy'n fforddiadwy, a

- symleiddio Gorchymyn 2010 er mwyn gallu ei ddehongli'n eglur ac yn gyson.

4.6 Roedd angen i'r adolygiad a'r cynigion polisi canlyniadol gydnabod y cymorth gwerthfawr ac eang y mae darparwyr cofrestredig ac anghofrestredig yn ei gynnig i blant a theuluoedd ledled Cymru. Roedd yr angen i daro cydbwysedd, bod yn gymesur a heb leihau'r ystod o weithgareddau sydd ar gael i blant a theuluoedd yng Nghymru sy'n hyrwyddo eu lles ac yn cyfoethogi eu bywydau yn hanfodol. Nid oedd yn nod gan yr adolygiad o'r eithriadau yng Ngorchymyn 2010 i gofrestru pob darparwr sy'n cynnig gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau i blant.

4.7 Nod y Gorchymyn yw moderneiddio ac egluro'r eithriadau ar gyfer darparwyr gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau. Ymysg y prif newidiadau mae diweddaru a chysoni eithriadau â chanllawiau'r Cynnig Gofal Plant, cyflwyno cyfyngiadau oedran ac amser newydd i rai o'r eithriadau, diwygio trothwyon oedran ac amser, diweddaru rheolau ar gyfer carcwyr plant, ac atal darparwyr sydd wedi'u hatal dros dro rhag gweithredu o dan rai eithriadau.

4.8 Bydd y newidiadau'n helpu'r sectorau gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau i weithredu'n fwy effeithlon drwy symleiddio ac egluro'r eithriadau i leihau amwysedd a sicrhau goruchwyliaeth gymesur.

4.9 Bwriad y Gorchymyn yw gwella cydraddoldeb, fforddiadwyedd a hyrwyddo mesurau diogelwch cadarn i blant. Mae'r manteision yn cynnwys mwy o oruchwyliaeth a sicrwydd ansawdd i blant dwy oed ac iau, mwy o hyblygrwydd i deuluoedd, ac ymgysylltiad cynharach â gwasanaethau ieuenctid drwy drothwy oedran is.

4.10 Bydd y newidiadau yn y Gorchymyn Eithriadau yn effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru oherwydd y gallai fod angen i rai darparwyr gofrestru ag AGC yn awr, tra nad oes angen i eraill gael eu cofrestru mwyach. Mae hyn yn golygu y gallai fod rhaid i rai darparwyr nad ydynt wedi eu cofrestru ar hyn o bryd gael eu cofrestru, a gallai rhai darparwyr cofrestredig gael eu tynnu o'r gofyniad cofrestru. Bydd y newidiadau hyn o ran pwy sy'n gorfod cofrestru yn effeithio ar AGC, gan y bydd yn gweld newidiadau yn nifer y darparwyr sy'n gwneud cais i gofrestru neu sy'n cynnal cofrestriad. Effeithir hefyd ar awdurdodau lleol, gan eu bod yn cefnogi darparwyr cofrestredig a darparwyr anghofrestredig sydd am gofrestru, yn ogystal â'r rhai y maent yn comisiynu gwasanaethau ganddynt. Ar lefel ehangach, efallai yr effeithir ar Lywodraeth y DU, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a Thrysorlys Ei Fawrhydi gan y nifer cynyddol o ddarparwyr a allai fod yn gymwys i gael taliad drwy eu cynlluniau ariannol gofal plant ac felly gynnydd mewn hawliadau gan deuluoedd cymwys. Bydd rhai darparwyr a fydd yn cofrestru, ond nid pob un, yn gallu cynnig Gofal Plant Di-dreth a

Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Dim ond darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth gymwys yn Lloegr fydd yn gallu darparu'r cyllid hwn.

4.11 Os na wneir y Gorchymyn, bydd Gorchymyn 2010 yn parhau i fod ar waith, gan adael y sefyllfa heb ei newid. Byddai'r diffyg eglurder presennol a nodwyd ar draws sawl erthygl yng Ngorchymyn 2010 yn parhau, ynghyd â'r anawsterau cysylltiedig wrth ddehongli. Byddai darparwyr a fyddai fel arall yn dod o fewn cwmpas cofrestru drwy'r Gorchymyn yn parhau i weithredu yn anghofrestredig a heb gofrestriad. Yn fwy cyffredinol, os nad yw'r newidiadau arfaethedig i Orchymyn 2010 yn cael eu datblygu, bydd y sector gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau yn parhau i gael eu rhwymo gan fframwaith rheoleiddio a ddehonglir yn anghyson ac nad yw bellach yn adlewyrchu arferion na chyfeiriad polisi cyfredol.

4.12 Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys dim ond i Gymru. Mae'n diwygio'r fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu gwarchod plant a darpariaeth gofal dydd yng Nghymru ac nid yw'n cael effaith uniongyrchol ar rannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae'r darpariaethau yn cael effaith unffurf ar draws holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru ac nid ydynt yn creu cymhwysiad tiriogaethol gwahaniaethol yng Nghymru.

4.13 Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ochr yn ochr â datblygu'r Gorchymyn i ddadansoddi ac asesu effaith y newidiadau yn y Gorchymyn ar y system gyfiawnder. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn nodi ein hasesiad nad oes unrhyw effaith neu fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder. Roedd asesiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r effaith yn cyd-fynd â hyn.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes dyletswydd statudol benodol i ymgynghori cyn gwneud Gorchymyn newydd o dan adran 19(4) o'r Mesur. Fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig ac fel y'u hymgorfforwyd mewn Gorchymyn drafft gyda rhanddeiliaid perthnasol a'r cyhoedd yn ehangach.

*Cyn ymgynghori*

5.2 Rhwng gwanwyn 2024 a haf 2025, ymgymerodd Llywodraeth Cymru â gwaith ymgysylltu helaeth. Y nod oedd deall yn well y sectorau gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau cofrestredig ac anghofrestredig, a'r effaith y gallai newidiadau posibl ei chael ar ystod eang o randdeiliaid. Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â thua 400 o unigolion, gan gynnwys plant, rhieni neu ofalwyr, a'r rhannau cofrestredig ac anghofrestredig o'r sectorau gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau. Ym mis Mehefin

2024, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynghori ("y Grŵp Cynghori Gorchymyn Eithriadau") i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi.

*Ymgynghoriad ffurfiol*

5.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o 11 Awst hyd 3 Tachwedd 2025 ar y Gorchymyn drafft. Tynnwyd yr ymgynghoriad at sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys darparwyr gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau i blant, aelodau partneriaeth CWLWM, Chwarae Cymru, ysgolion, awdurdodau lleol, AGC, Comisiynydd Plant Cymru, Estyn, Gofal Cymdeithasol Cymru, Plant yng Nghymru, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, CLlLC, CGGC, CWVYS, cyrff cynrychioladol ar gyfer ffydd grefyddol, darparwyr addysg ac elusennau.

5.4 Roedd fersiwn hawdd ei deall a fersiwn i blant a phobl ifanc o'r ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar wahân hefyd ar gael.

5.5 Daeth cyfanswm o 97 o ymatebion ysgrifenedig i law. Cyflwynwyd dau o'r ymatebion drwy'r ffurflen ymateb hawdd ei deall a chyflwynwyd dau ymateb mewn fformatau eraill. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion gan ddefnyddio’r ffurflen ymateb i blant a phobl ifanc.

5.6 Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws fel rhan o'r ymgynghoriad. Dau grŵp ar gyfer rhieni, un ar gyfer y darparwyr cofrestredig ac un ar gyfer darparwyr anghofrestredig. Roedd cyfanswm o 35 o gyfranogwyr ar draws y pedwar grŵp (10 rhiant, 14 darparwr cofrestredig, ac 11 darparwr anghofrestredig).

5.7 Comisiynodd Llywodraeth Cymru Plant yng Nghymru i gynnal sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc i ddarparu cyfle iddynt rannu eu barn ar faterion allweddol o'r ymgynghoriad. Er nad oedd y gweithdai hyn yn rhan o'r ymgynghoriad gan eu bod yn cael eu hystyried fel ymgysylltiad, roedd y gwaith yn cynnig darlun gwerthfawr. Cynhaliwyd tri gweithdy mewn gwahanol leoliadau, gyda phobl ifanc 10-25 oed yn bresennol. Cyhoeddir yr adroddiad a baratowyd gan Plant yng Nghymru ochr yn ochr â'r adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.8 Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyfarfu'r Grŵp Cynghori Gorchymyn Eithriadau i rannu deilliannau'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.9 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Gorchymyn ac maent ar gael ar dudalen ymgynghori Llywodraeth Cymru.

## ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL (AER)

### Diben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (‘Gorchymyn Eithriadau 2010’) yn nodi'r amgylchiadau lle nad oes angen cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (“AGC”) fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (‘y Mesur’).

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried y newidiadau arfaethedig sydd wedi'u nodi yng Ngorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 (‘Gorchymyn 2026’) a fyddai'n disodli ‘Gorchymyn 2010’.

Caiff naw cynnig eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ac mae dau neu dri opsiwn wedi cael eu cyflwyno ar gyfer pob cynnig.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn amlinellu newidiadau arfaethedig i'r erthyglau perthnasol yng Ngorchymyn Eithriadau 2010 yr ydym yn bwriadu eu newid, gan nodi costau, manteision a risgiau cadw pob erthygl fel y'i cyflwynir yng Ngorchymyn Eithriadau 2010 (Opsiwn 1) ar hyn o bryd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedyn yn amlinellu'r opsiynau amgen, gan gynnwys newidiadau arfaethedig a adlewyrchir yng Ngorchymyn 2026, gan nodi costau, manteision a risgiau dirymu'r eithriadau amrywiol sydd eisoes yn bodoli yng Ngorchymyn 2010 drwy ddarparu darpariaethau newydd ac wedi'u diweddaru yng Ngorchymyn 2026 (Opsiwn 2 neu 3).

### Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Bydd y newidiadau arfaethedig yn opsiynau 2 a 3 yn effeithio ar rai sectorau gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Er y cafwyd gwybodaeth ychwanegol o'r ymgynghoriad ynghylch yr ‘Eithriadau o ran cofrestru gofal plant a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol’, a gynhaliwyd rhwng 11 Awst a 3 Tachwedd 2025, gwybodaeth gyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru am faint ac ehangder rhan anghofrestredig y sector, arferion presennol y darparwyr hyn a'r ffordd y maent yn gweithredu. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu bod cryn amrywiaeth ymhlith darparwyr gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau o ran y math o ddarpariaeth y maent yn ei chynnig, sut maent yn gweithredu, a newidiadau posibl y byddai angen iddynt eu gwneud pe bai'n ofynnol iddynt gofrestru. Yn ogystal, oherwydd bod gwybodaeth gyfyngedig am y darparwyr hyn, mae ansicrwydd o ran sut y byddant yn ymateb i'r cynigion a gaiff eu hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r effaith y gall hyn ei chael ar AGC. O ganlyniad, mae'n anodd amcangyfrif beth fydd effaith y cynigion hyn.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi asesiad ansoddol yn bennaf o'r costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau gwahanol o dan bob un o'r naw cynnig. Yn Atodiad 1, ceir rhagor o fanylion am y costau y gallai rhanddeiliaid gwahanol fynd iddynt, gan gynnwys amcangyfrif o'r gost i AGC i gofrestru darparwyr

gwasanaethau ychwanegol. Mae AGC wedi amcangyfrif y bydd gwerth £108,000 o gostau ychwanegol yn 2026-27, £300,500 yn 2027-28 a £365,400 yn 2028-29. Mae hyn yn seiliedig ar gynnydd amcangyfrifedig o 5% yn nifer y darparwyr gwarchod plant a gofal dydd y byddai angen iddynt gofrestru bob blwyddyn (oddeutu 163 o ddarparwyr ychwanegol). Mae Atodiad 2 yn cyflwyno enghreifftiau o'r mathau o gostau y gallai darparwyr gwasanaethau fynd iddynt er mwyn bodloni'r gofynion sy'n gysylltiedig â chofrestru. Bydd rhai o'r rhain yn gostau untro a bydd rhai yn codi dro ar ôl tro. Bydd pa gostau o blith y rhain, os o gwbl, y bydd pob darparwr yn mynd iddynt mewn gwirionedd yn dibynnu ar ei amgylchiadau unigol.

## CYNNIG 1

**Amgylchiadau pan fydd gwarchodwr plant wedi'i eithrio rhag cofrestru pan fydd yn gofalu am berthynas**

### Opsiwn 1: Gwneud dim

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, byddai erthygl 3 o Orchymyn 2010 yn parhau fel y mae:

> *(1) Nid yw person sy'n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw—*
>
> *(i)yn rhiant neu'n berthynas i'r plentyn; neu,*
>
> *(ii)yn rhiant maeth ar gyfer y plentyn.*

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Ni nodwyd unrhyw fanteision drwy'r ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

**Risgiau:**
Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o anghysondeb rhwng erthygl 3 Gorchymyn 2010 a'r canllawiau ymarfer sy'n sail i Gynnig Gofal Plant Cymru. Mae hyn wedi arwain at ddryswch i rai gwarchodwyr plant sy'n ansicr a ydynt yn gallu gweithredu fel gwarchodwyr plant i berthnasau, ac ar ran rhieni wrth geisio deall a allant fanteisio ar wasanaethau perthynas fel gwarchodwr plant i'w plentyn. Yn ogystal, efallai na fydd yn glir i aelodau o'r teulu nad oes angen iddynt gofrestru fel gwarchodwr plant er mwyn gofalu am blentyn sy'n berthynas sy'n byw yn yr un safle domestig a bod y gweithgarwch gwarchod plant yn digwydd yng nghartref y plentyn. Mae risg y bydd aelodau o'r teulu nad oes angen iddynt gofrestru yn cofrestru fel gwarchodwyr plant drwy honni'n anwir eu bod yn cynnig eu gwasanaeth i bobl eraill y tu allan i'w teulu. Mae'n bosibl y byddai bod yn

ddarparwr cofrestredig yn eu galluogi i hawlio cyllid gofal plant a chyllid grant gan Lywodraeth Cymru a/neu gyllid gofal plant gan Lywodraeth y DU.

**Opsiwn 2: Diwygio'r eithriad i egluro o dan ba amgylchiadau y mae person wedi'i eithrio rhag cofrestru pan fydd yn gofalu am berthynas**

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r eithriad yn cael ei ddisodli gan eithriad newydd sy'n rhagnodi y gall perthnasau[1] a phersonau sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn weithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant y maent yn byw gyda nhw, ar yr amod y caiff pob un o'r amodau canlynol eu bodloni:

- nid ydynt yn rhiant i'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn,
- nid nhw yw gofalwr maeth y plentyn,
- nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac
- mae'r gofal ar gael i blant nad ydynt yn perthyn iddynt.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os bydd darparwyr yn bodloni'r amodau ac yn dymuno cofrestru ag AGC fel gwarchodwr plant, gall AGC, teuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fynd i gostau, fel y nodir yn Atodiad 1.

**Manteision:**
Drwy ddiwygio'r eithriad i egluro o dan ba amgylchiadau y mae person wedi'i eithrio rhag cofrestru fel gwarchodwr plant wrth ofalu am berthynas, byddai'r Gorchymyn yn cyd-fynd â chanllawiau Cynnig Gofal Plant Cymru ac arferion AGC. Byddai hyn yn rhoi eglurder i warchodwyr plant a rhieni ynglŷn â'r trefniadau perthnasol sy'n galluogi gwarchodwr plant cofrestredig i ofalu am berthynas. Bydd hefyd yn nodi'n glir yr amgylchiadau pan nad oes angen i rywun gofrestru fel gwarchodwr plant er mwyn gofalu am berthynas neu blentyn y mae'n byw gydag ef, neu lle nad yw'n gallu gwneud hyn. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni y gallant ddewis gwarchodwr plant sy'n berthynas neu berson sy'n byw gyda'r plentyn, y maent yn teimlo fyddai'n diwallu anghenion eu plentyn orau, o dan rai amgylchiadau. Lle bydd teulu cymwys yn defnyddio gwarchodwr plant sy'n bodloni'r amodau, gall elwa drwy allu cael gafael ar gyllid gofal plant Llywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth y DU ar gyfer y gofal.

**Risgiau:**
Mae risg ychydig yn uwch y bydd aelodau o'r teulu nad oes angen iddynt gofrestru yn cofrestru fel gwarchodwyr plant drwy honni'n anwir eu bod yn cynnig eu gwasanaeth i bobl eraill y tu allan i'w teulu. Mae'n bosibl y byddai bod yn ddarparwr cofrestredig yn eu galluogi i hawlio cyllid gofal plant a chyllid grant gan Lywodraeth Cymru a/neu gyllid gofal plant gan Lywodraeth y DU. Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r farn bod yr ymddygiad hwn yn dwyllodrus, gan

---

[1] Ystyr "perthynas", mewn perthynas â phlentyn, yw llys-riant, tad-cu/taid neu fam-gu/nain, brawd, chwaer, ewythr, modryb, neu gefnder cyntaf (gan gynnwys unrhyw unigolyn sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

nodi y gall perthnasau gofrestru fel gwarchodwyr plant er mwyn cael gofal plant wedi'i ariannu i berthnasau yn unig.

**Casgliad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried costau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod manteision opsiwn dau yn gwrthbwyso'r risgiau a'r costau, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r opsiwn hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi Gorchymyn 2026.

**CYNNIG 2**

**Cysoni'r eithriadau i'r gofyniad i gofrestru mewn perthynas â nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod**

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai graddau'r erthyglau perthnasol yng Ngorchymyn 2010 yn newid:

Erthygl 5:
*(1) Pan fo person sy'n cael ei gyflogi —*
*(a)(i)i ofalu am blentyn neu grŵp o siblingiaid ar gyfer rhieni ("y rhieni cyntaf"), neu*
*(ii)i ofalu am ail blentyn neu grŵp o siblingiaid ar gyfer rhieni ("yr ail rieni") yn ychwanegol at y plant y gofelir amdanynt ar gyfer y rhieni cyntaf, a*
*(b)yn gofalu am y plant o dan sylw yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref neu gartrefi'r rhieni cyntaf neu'r ail rieni, nid yw'n gweithredu fel gwarchodwr plant.*

Erthygl 6:
*Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw yn gofalu am y plentyn am gyfnod nad yw'n cychwyn tan ar ôl 6pm ar unrhyw un diwrnod ac sy'n dod i ben cyn 2am y diwrnod canlynol.*

*Erthygl 13:*
*(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal mewn gwesty, tŷ llety neu sefydliad cyffelyb arall, i blentyn sy'n aros yn y sefydliad hwnnw—*
*(a)pan fo'r ddarpariaeth yn digwydd yn unig rhwng 6 pm a 2 am; a*
*(b)pan na fo'r person, neu yn ôl y digwydd, unrhyw unigolyn sy'n cael ei gyflogi ganddo, sy'n darparu'r gofal yn gwneud hynny i fwy na dau gleient gwahanol ar yr un pryd.*

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Bydd rhieni yn parhau i allu gwneud trefniadau i'w plant gael gofal gan nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod yn unol â thelerau'r eithriadau presennol yng Ngorchymyn 2010. Mae hyn yn caniatáu i rieni ddewis a gwneud trefniadau hyblyg a fyddai'n addas i'w teulu.

**Risgiau:**
Mae cadw'r tair erthygl hyn ar gyfer darparwyr sy'n gofalu am blant yn eu cartref eu hunain neu yng nghartref teulu arall neu mewn gwesty neu leoliad tebyg, yn golygu bod yr eithriadau hyn yn gymhleth a gellid eu dehongli mewn ffyrdd amrywiol. Mae'r eithriadau yn wahanol ar hyn o bryd ar gyfer y rheini a gyflogir fel nanis ac au pairs a'r rhai y mae eu gwasanaethau yn cael eu defnyddio fel gwarchodwyr babanod. Gall y cafeat amser a nodir yn erthygl 13 o Orchymyn 2010 gyfyngu ar allu rhieni i gyflogi rhywun i ofalu am eu plentyn y tu hwnt i 6pm-2am ar gyfer gwarchod babanod a allai gyfyngu ar eu dewisiadau gofal plant.

Drwy nodi uchafswm nifer y teuluoedd yn hytrach nag uchafswm nifer y plant, mae risg y bydd cymarebau uchel o blant i nanis, au pairs neu warchodwyr babanod os bydd y teuluoedd yn cynnwys grwpiau mawr o frodyr a/neu chwiorydd.

**<u>Opsiwn 2: Cysoni'r eithriadau mewn perthynas â nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod.</u>**

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r terfyn amser o 6pm-2am i warchodwyr babanod yn cael ei ddileu ac – fel nanis ac au pairs – gallent ofalu am blant hyd at ddwy set o rieni ar yr un pryd. Byddai angen darparu'r gofal a ddarperir gan y gwarchodwr babanod, y nani neu'r au pair yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y naill deulu neu'r llall neu mewn safle annomestig (gan gynnwys gwesty neu dŷ llety) y mae'r rhieni wedi'i ddewis. Byddai trefniadau gofal yn cael eu gwneud rhwng y rhieni a'r gwarchodwr babanod, y nani neu'r au pair.

**Cost:**
Efallai y bydd darparwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu ymuno â Chynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 ("y Cynllun"). Y gost bresennol i gael cymeradwyaeth yw £55 y flwyddyn. Fodd bynnag, mae ymuno â'r cynllun yn wirfoddol ac felly mae'r gost yn daladwy o'u gwirfodd. Er y byddai cost i AGC am weinyddu unrhyw geisiadau newydd i ymuno â'r Cynllun, byddai'r ffi yn gwneud iawn am y gost weinyddol yn rhannol. Ni ddisgwylir y bydd llawer o geisiadau newydd o dan y Cynllun o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig yng Ngorchymyn 2026.

**Manteision:**
Caiff eglurder a symlrwydd eu cyflawni drwy sicrhau cydraddoldeb i nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod o ran nifer y teuluoedd y gallant ofalu amdanynt ar yr un pryd, ble y darperir y gofal, a phennu y caiff y trefniadau gofal plant eu

gwneud rhwng y rhieni a'r darparwr. Bydd hyn yn cael gwared ar ddryswch pe bai rhieni yn dymuno defnyddio trefniadau hyblyg ar gyfer y gofal. Bydd hyn hefyd yn dileu unrhyw gyfyngiadau ar amser ar gyfer gwarchod babanod sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i rieni, ac yn diwallu anghenion gofal plant mewn cymdeithas sy'n newid yn well. Drwy ddefnyddio darparwr sydd wedi'i gymeradwyo o dan y Cynllun, mae'n bosibl hefyd y bydd teuluoedd cymwys yn gallu defnyddio Gofal Plant Credyd Cynhwysol neu Ofal Plant Di-dreth i helpu i dalu am gost y gofal, lle mae'r gofal yn bodloni gofynion Llywodraeth y DU. Wrth i fwy o ddarparwyr ddod yn gymwys ar gyfer y cynllun cymeradwyo, gallai mwy o rieni fanteisio ar y cymorth ariannol hwn.

**Risgiau:**
Drwy nodi uchafswm nifer y teuluoedd yn hytrach nag uchafswm nifer y plant, mae risg y bydd cymarebau uchel o blant i nanis, au pairs neu warchodwyr babanod os bydd y teuluoedd yn cynnwys grwpiau mawr o frodyr a/neu chwiorydd. Gellid ystyried bod hyn yn cyfaddawdu trefniadau gofal diogel. Caiff y risg hon ei lleihau i raddau drwy gyflwyno terfyn ar nifer y teuluoedd y gall gwarchodwr babanod ofalu amdanynt ar yr un pryd.

**<u>Casgliad</u>**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried costau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod manteision opsiwn dau yn gwrthbwyso'r risgiau a'r costau, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r opsiwn hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

## <u>CYNNIG 3</u>

### Darparu gwasanaethau ieuenctid wrth bontio[2] i blant 10 oed, gan gynnig cymorth wrth bontio i'r rhai nad ydynt wedi cyrraedd 11 oed eto

### <u>Opsiwn 1: Gwneud dim</u>

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai geiriad erthygl 16 o Orchymyn 2010 yn newid:

> *(1) Nid yw person yn darparu gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd os ac i'r graddau—*
>
> > *(a)mai dim ond darparu gwasanaeth ieuenctid i bobl ifanc sydd wedi cyrraedd un ar ddeg oed y mae'r person; a*
> >
> > *(b)bod unrhyw ofal a ddarperir yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth ieuenctid hwnnw.*

[2] Ystyr y term "gwasanaeth ieuenctid wrth bontio" yw gwasanaeth sy'n darparu cymorth addysgol, personol a chymdeithasol i blentyn yn ystod ei gyfnod o bontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd, a lle nad oes angen i'r plant sy'n cymryd rhan dalu neu dim ond tâl bach a godir arnynt.

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid. Mae gwasanaethau ieuenctid ar gael i bobl ifanc yn rhad ac am ddim neu am gost isel.

**Manteision:**
Gall darpariaethau presennol barhau fel y maent ac nid effeithir arnynt.

**Risgiau:**
Ni chaiff darparwyr gwasanaethau ieuenctid gynnig gwasanaethau ieuenctid wrth bontio i blant 10 oed o dan yr opsiwn hwn (sef cadw'r sefyllfa bresennol). Os yw darparwyr yn dymuno ehangu eu darpariaeth i blant 10 oed, maent wedi'u cyfyngu i weithredu o dan eithriadau eraill sy'n gosod cyfyngiadau ar hyd ac amlder y ddarpariaeth. Mae hyn yn lleihau'r hygyrchedd i bobl ifanc sy'n elwa ar ddefnyddio gwasanaethau ieuenctid wrth bontio.

**<u>Opsiwn 2: Eithrio darpariaeth gwasanaethau ieuenctid wrth bontio, pan fo pobl ifanc wedi cyrraedd 10 oed, rhag gorfod cofrestru fel darparwyr gofal dydd</u>**

O dan yr opsiwn hwn, byddai eithriad yn cael ei wneud i eithrio gwasanaeth ieuenctid sy'n darparu gwasanaethau ieuenctid wrth bontio i blant sy'n 10 oed.

**Cost:**
Nid oes unrhyw gostau wedi'u nodi ar gyfer opsiwn 2. Mae gwasanaethau ieuenctid ar gael i bobl ifanc yn rhad ac am ddim neu am gost isel. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gallai fod costau cynyddol ar gyfer darparu gwasanaeth i'r garfan ychwanegol hon. Ond byddai'r ddarpariaeth yn ddewisol, ac felly byddai ysgwyddo'r gost hon yn gysylltiedig â'r dewis hwnnw.

**Manteision:**
Bydd darparwyr gwasanaethau ieuenctid yn gallu cynnig gwasanaethau ieuenctid wrth bontio i blant 10 oed o dan yr opsiwn hwn heb fod angen iddynt gofrestru fel darparwr gofal dydd. Ni fydd yn ofynnol iddynt addasu unrhyw ddarpariaeth i blant 10 oed o fewn eithriadau eraill mwyach sy'n ymwneud ag amser ac amlder y ddarpariaeth, ac felly byddant yn gallu ehangu'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Bydd hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwasanaethau ieuenctid wrth bontio sydd ar gael i gefnogi eu hanghenion personol, cymdeithasol ac addysgol. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i helpu plant i bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Mae'n bosibl hefyd y bydd diffinio ac egluro gwasanaethau ieuenctid wrth bontio yn dileu'r risg y caiff darpariaeth gwasanaeth ieuenctid wrth bontio ei chamgymryd am ofal plant.

**Risgiau:**
Bydd angen i ddarparwyr reoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc o bob oed yn mynychu gwasanaethau ieuenctid. Mae rhanddeiliaid wedi rhoi gwybod inni y byddai'r sesiynau pontio yn benodol i blant 10 oed a fyddai'n lleihau'r risg

sy'n gysylltiedig â chael plant 10 oed yn cymysgu â phobl ifanc hŷn sydd yn eu harddegau.

**Casgliad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried costau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod manteision opsiwn dau yn gwrthbwyso'r risgiau a'r costau, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r opsiwn hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth gyson o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**CYNNIG 4**

**Ysgolion lle mae'r gofal yn rhan achlysurol o'r addysg (plant 2 oed ac iau)**

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai geiriad erthygl 14 o Orchymyn 2010 yn newid:

> *(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal i blant mewn ysgol, a'r ddarpariaeth o ofal yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â darparu addysg.*

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Gallai ysgolion barhau i gynnig addysg i blant o bob oedran heb fod yn ofynnol iddynt gofrestru os yw'r gofal a ddarperir yn gysylltiedig â darparu addysg.

**Risgiau:**
Mae unrhyw blant 2 oed ac iau sy'n mynychu'r ysgol yn debygol o angen lefel o ofal sy'n gyson â phlant o'r un oed sy'n mynychu lleoliadau gofal dydd cofrestredig. Mae eu hanghenion gofal yn debygol o fod yn sylweddol, ac mae'n annhebygol y gellir ystyried yn wrthrychol fod unrhyw ofal y maent yn ei gael ar yr oedran hwn yn rhan achlysurol o'r addysg. Fel arfer, mae angen gofal dydd penodedig ar blant o'r oedran hwn. Gallai hynny gynnwys arferion gofal fel newid cewynnau, amserlen cysgu, a'u helpu i fwyta. Oherwydd bod ysgolion wedi'u heithrio rhag cofrestru, ni fyddai darparu'r gofal hwn i blant sy'n mynychu'r ysgol yn destun arolygiad yn yr un ffordd ag y byddai'r gofal i blant sy'n mynychu lleoliad gofal plant cofrestredig am yr un cyfnod o amser.

**Opsiwn 2: Diwygio'r eithriad fel mai dim ond darpariaeth addysgol i blant 3 oed neu'n hŷn a gaiff ei heithrio.**

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r eithriad yn cael ei newid fel ei fod ond yn berthnasol pan fydd plant 3 oed neu'n hŷn yn mynychu'r ysgol ar gyfer darpariaeth addysgol. Byddai'n ofynnol i unrhyw ysgol sy'n dymuno cynnig darpariaeth i blant 2 oed neu'n iau gofrestru'r rhan honno o'r ysgol fel darpariaeth gofal dydd.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os byddai darparwyr yn dymuno parhau i gynnig darpariaeth i blant 2 oed neu'n iau, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag AGC fel darparwr gofal dydd. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd AGC, teuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau, fel y nodir yn Atodiad 1.

**Manteision:**
Byddai'n ofynnol i ysgolion sy'n cynnig darpariaeth i blant 2 oed ac iau gofrestru ag AGC fel eu bod yn cyfateb i ddarparwyr gofal plant cofrestredig sy'n darparu gwasanaeth i blant o'r un oedran ac sydd â'r un lefel o angen. Caiff y gofal a ddarperir i'r plant hyn ei arolygu gan AGC, a byddai'n ofynnol i ddarparwyr fodloni safonau a fyddai'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas a bod y staff sy'n gofalu am y plant yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol i ddiwallu eu hanghenion gofal. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni bod anghenion eu plant yn cael eu diwallu'n briodol. Gall cofrestru alluogi darparwyr i gyflwyno rhaglenni a ariennir fel Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant Cymru os ydynt yn cynnig darpariaeth i blant o'r oedrannau perthnasol, a gall alluogi teuluoedd cymwys i hawlio Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol.

**Risgiau:**
Ar hyn o bryd, mae pum ysgol annibynnol yng Nghymru yn cynnig addysg ffurfiol i blant dan 3 oed. Risg yr opsiwn hwn yw y gallai'r ysgolion hyn gael gwared ar y ddarpariaeth hon a darparu addysg i blant 3 oed a hŷn yn unig. Byddai hyn yn lleihau'r dewis i rieni sy'n dymuno i'w plentyn fynychu'r lleoliadau hyn.

## Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried costau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod manteision opsiwn dau yn gwrthbwyso'r risgiau a'r costau, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r opsiwn hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**CYNNIG 5**

**Coetsio a dysgu (nifer y mathau o weithgareddau)**

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai geiriad erthygl 15 o Orchymyn 2010 yn newid:

> *(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir iddo yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddi neu'r dysgu hwnnw.*
>
> *(2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys —*
> *(a)os yw'r plant islaw 5 oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu,*
> *(b)os yw'r person yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).*
>
> *(3) Y mathau o weithgaredd yw —*
> *(a)chwaraeon;*
> *(b)celfyddydau perfformio;*
> *(c)celfyddydau a chrefftau;*
> *(ch)cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;*
> *(d)astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.*

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Byddai darparwyr sy'n cynnig gweithgareddau coetsio a dysgu yn gallu parhau i gynnig eu gwasanaeth ar gyfer hyd at ddau o'r mathau penodedig o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod dewis a chyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau.

**Risgiau:**
Gwahaniaeth cyfyngedig sydd rhwng yr hyn a gynigir gan rai clybiau gwyliau cofrestredig sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a darparwyr anghofrestredig sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac sy'n gweithredu o dan yr eithriad hwn. Gall hyn greu rhywfaint o anghyfartaledd yn y sector o ran y safonau y disgwylir i ddarparwyr tebyg eu bodloni.

**Opsiwn 2: Diwygio'r eithriad fel bod darpariaeth sy'n cynnig un math o weithgaredd coetsio neu ddysgu yn unig yn cael ei heithrio**

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r eithriad yn cael ei ddiwygio fel ei fod ond yn berthnasol os bydd darparwyr yn cynnig coetsio a dysgu mewn un math o weithgaredd penodedig yn unig.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os bydd darparwyr yn dymuno parhau i gynnig dau fath o weithgaredd, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag AGC fel darparwr gofal dydd. Mae'n bosibl y bydd AGC, teuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau, fel y nodir yn Atodiad 1.

**Manteision:**
Bydd gwahaniaeth cliriach rhwng yr hyn a gynigir gan ddarparwyr sy'n cynnig coetsio a dysgu a darparwyr gofal dydd. Gall hyn helpu rhieni i ganfod a yw darpariaeth wedi'i chofrestru fel darparwr gofal plant ai peidio. Bydd darparwyr sy'n cynnig coetsio a dysgu ac sy'n cael eu heithrio yn fwy penodol o ran yr hyn y maent yn ei gynnig, gan y byddant yn cynnig un math o weithgaredd yn unig, a thrwy hynny yn hyrwyddo'r arbenigedd cliriach o ran coetsio a dysgu y mae'r erthygl yn ceisio ei eithrio. Bydd y diwygiad yn sicrhau bod rhywfaint o ddewis a chyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau o hyd.

**Risgiau:**
Gall darparwyr sy'n cynnig mwy nag un math o weithgaredd ar hyn o bryd ddewis rhoi'r gorau i weithredu. Mae'r risg yn arbennig o acíwt i ddarpariaeth a arweinir gan wirfoddolwyr, lle mae'n bosibl na fydd darparwyr yn fodlon neu'n gallu ymgymryd â chostau ychwanegol a baich gweinyddol cofrestru. Gall dryswch hefyd godi i ddarparwyr y mae eu darpariaeth yn cwmpasu sawl categori, y rhai sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, neu'r rhai sy'n darparu rhaglen ddysgu gyfannol ac wedi'i chydblethu. O ganlyniad, gall y darparwyr hyn hefyd ddewis rhoi'r gorau i ddarparu eu darpariaeth neu ei addasu.

Gallai newidiadau o'r fath arwain at lai o amrywiaeth, dewis a chyfleoedd sy'n adeiladu sgiliau i blant a rhieni sydd am i'w plentyn fynychu'r darpariaethau hyn. Mae'n bosibl hefyd y bydd effeithiau ar ymdrechion i drosglwyddo diwylliant drwy gyfleoedd i rannu ffydd a diwylliant, rhyngweithio'n gymdeithasol a datblygu sgiliau plant. Mae'n bosibl y bydd achosion o gwtogi a chau darpariaethau yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd incwm isel, yn ogystal â chymunedau gwledig, Cymraeg a chymunedau eraill lle mae'r ddarpariaeth eisoes yn gyfyngedig.

Os bydd darparwyr yn dewis cofrestru, gall mwy o gystadleuaeth o fewn y farchnad danseilio cynaliadwyedd lleoliadau sefydledig a rhoi pwysau ychwanegol ar ddarpariaeth hyfforddiant y sector, y mae eisoes yn anodd cael gafael arno.

## Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried costau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Er bod cefnogaeth o blaid y cynnig a nodwyd yn opsiwn 2, cododd sylwadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad bryderon cynyddol ynglŷn â'r effeithiau negyddol posibl ar blant, teuluoedd a chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac i grwpiau cyfrwng Cymraeg, cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar ffydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod risgiau a chostau'r cynnig hwn yn gorbwyso manteision gwneud y newid hwn. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen ag opsiwn 1, sef parhau â'r sefyllfa bresennol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth gyson o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

## CYNNIG 6

**Coetsio a dysgu (mathau o weithgareddau)**

## Opsiwn 1: Gwneud dim

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'r categorïau o weithgareddau a nodir yn erthygl 15 o Orchymyn Eithriadau 2010 yn newid:

> *(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir iddo yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddi neu'r dysgu hwnnw.*
>
> *(2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys —*
> *(a)os yw'r plant islaw 5 oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu,*
> *(b)os yw'r person yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).*
>
> *(3) Y mathau o weithgaredd yw —*
> *(a)chwaraeon;*
> *(b)celfyddydau perfformio;*
> *(c)celfyddydau a chrefftau;*
> *(ch)cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;*
> *(d)astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.*

**Manteision:**
Byddai darparwyr sy'n cynnig gweithgareddau coetsio a dysgu yn parhau i allu cynnig hyd at ddau o'r mathau o weithgareddau o'r rhestr y maent eisoes yn gyfarwydd â hi.

**Risgiau:**
Nid yw'r mathau presennol o weithgareddau yn ddigon eglur ac nid ydynt yn adlewyrchu'r ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn glir.

**Opsiwn 2: Diwygio'r categorïau o weithgareddau.**

O dan yr opsiwn hwn, caiff y rhestr o fathau o weithgareddau ei diwygio fel a ganlyn:

(a) chwaraeon;
(b) celfyddydau mynegiannol a chreadigol;
(c) cymorth addysgol – gan gynnwys ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd; iechyd a lles;
(d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol

**Costau:**
O dan yr opsiwn hwn, mae'n bosibl y bydd angen i ddarparwyr adolygu eu darpariaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu o dan un o'r mathau newydd o weithgareddau a nodir yn yr eithriad.

**Manteision:**
Bydd diwygio'r mathau o weithgareddau yn adlewyrchu'r mathau o weithgareddau y mae darparwyr coetsio a dysgu yn eu cynnig yng nghymdeithas heddiw yn gliriach. Gall ehangder y categorïau roi'r cyfle i gynnig gweithgareddau niferus o fewn y mathau o weithgareddau sy'n caniatáu cyfleoedd dysgu amrywiol i blant. Bydd y categori cymorth addysgol yn cyd-fynd â themâu'r Cwricwlwm i Gymru, ac felly'n cefnogi gwell dealltwriaeth o'r hyn a gwmpesir gan yr eithriad hwn.

**Risgiau:**
Gall ehangder y categorïau roi'r cyfle i gynnig gweithgareddau niferus yn hytrach na gweithgareddau coetsio a dysgu â phwyslais penodol, sef yr hyn y mae'r eithriad yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

**Casgliad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried costau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod manteision opsiwn dau yn gwrthbwyso'r risgiau a'r costau, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r opsiwn hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth gyson o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**CYNNIG 7**

**Coetsio a dysgu (plant 4 oed ac iau)**

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai geiriad erthygl 15 o Orchymyn 2010 yn newid:

> *(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir iddo yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddi neu'r dysgu hwnnw.*
>
> *(2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys —*
> *(a)os yw'r plant islaw 5 oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu,*
> *(b)os yw'r person yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).*
>
> *(3) Y mathau o weithgaredd yw —*
> *(a)chwaraeon;*
> *(b)celfyddydau perfformio;*
> *(c)celfyddydau a chrefftau;*
> *(ch)cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;*
> *(d)astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.*

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Ar hyn o bryd, gall darparwyr gynnig gweithgareddau coetsio a dysgu i blant dan 5 oed am hyd at bedair awr y dydd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i rieni ddefnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn mynd i'r gwaith, os ydynt yn dymuno, ac i blant ymgolli yn y gweithgareddau.

**Risgiau:**
Mae ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos ei bod yn annhebygol y gall plant 4 oed ac iau ganolbwyntio ar weithgaredd coetsio neu ddysgu am hyd at bedair awr. Ar ben hynny, o ystyried eu cam datblygu a'u hanghenion gofal, roedd rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn annhebygol y gellid ystyried bod y gofal sydd ei angen ar blant yn rhan achlysurol o'r gweithgareddau coetsio neu ddysgu dros y cyfnod hwn.

**Opsiwn 2: Diwygio'r eithriad fel y gall plant 4 oed ac iau fynychu am hyd at ddwy awr y dydd**

O dan yr opsiwn hwn, os bydd plentyn 4 oed neu'n iau yn mynychu lleoliad â darpariaeth coetsio neu ddysgu heb ei riant neu ofalwr am fwy na dwy awr mewn diwrnod, byddai'n ofynnol i'r darparwr gofrestru fel darparwr gofal dydd. Gall darparwyr gynnig sawl sesiwn, ond dim ond am hyd at ddwy awr y dydd y caiff plant 4 oed ac iau fod yn bresennol oni bai bod eu rhiant gyda nhw. Ni fyddai'r rheol hon yn berthnasol i blant 5 oed a throsodd, a all fod yno am gyfnod amhenodol o amser. Dim ond pan nad yw'r rhieni yn bresennol y mae'r rheol hon yn effeithio ar goetsio a dysgu.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os bydd darparwyr yn dymuno parhau i gynnig coetsio a dysgu i blant 4 oed ac iau am gyfnod sy'n fwy na dwy awr y dydd heb riant yn bresennol, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag AGC fel darparwr gofal dydd. Mae'n bosibl y bydd AGC, teuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau, fel y nodir yn Atodiad 1.

**Manteision:**
Mae lleihau'r amser y gall plant 4 oed ac iau fynychu lleoliad sy'n darparu coetsio a dysgu heb i'w rhiant neu warcheidwad fod yn bresennol yn cydnabod eu cam datblygu. Nododd rhanddeiliaid fod dwy awr yn agosach at y cyfnod o amser sy'n briodol i blentyn o'r oedran hwn ymgymryd â gweithgaredd. Drwy leihau'r amser o bedair awr i ddwy awr, bydd rhieni yn gallu parhau i fanteisio ar gyfleoedd i'w plant elwa ar weithgareddau heb iddynt fod yn bresennol, er bod hynny am gyfnod byrrach o amser o bosibl. Os bydd plant yn mynychu am fwy na'r ddwy awr a ganiateir o dan yr eithriad, bydd y gofyniad i'r darparwr gofrestru yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu'n briodol gan staff â chymwysterau addas. Bydd darparwyr y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru yn sgil y diwygiad yn weladwy i awdurdodau lleol a byddant yn gallu cael cymorth, cydnabyddiaeth a chyllid os yw'n gymwys. Gall cofrestru alluogi darparwyr i gyflwyno rhaglenni a ariennir fel Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant os ydynt yn cynnig darpariaeth i blant o'r oedrannau perthnasol, a gall alluogi teuluoedd cymwys i hawlio Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol.

**Risgiau:**
Efallai na fydd rhai darparwyr sy'n cynnig coetsio a dysgu i blant 4 oed ac iau am hyd at bedair awr ar hyn o bryd yn dewis parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw am gyfnod byrrach o amser, ac felly gallant roi'r gorau i'w darpariaeth i blant 4 oed ac iau. Mae hyn yn peri risg i ddarpariaeth a arweinir gan wirfoddolwyr yn arbennig, lle mae'n bosibl na fydd darparwyr yn fodlon ymgymryd â'r costau a'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chofrestru.

Byddai hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd i blant 4 oed ac iau ymgymryd â gweithgareddau coetsio a dysgu, gan gyfyngu ar ddewis i blant a'u rhieni sydd am i'w plentyn fanteisio ar y darpariaethau hyn. Mae'n bosibl hefyd y bydd goblygiadau o ran cyfleoedd i rannu ffydd a diwylliant rhwng cenedlaethau. Mae'n bosibl y bydd achosion o gwtogi a chau darpariaethau yn cael effaith anghymesur

ar deuluoedd incwm isel, yn ogystal â chymunedau gwledig, Cymraeg a chymunedau eraill lle mae'r ddarpariaeth eisoes yn gyfyngedig.

Os bydd darparwyr yn dewis cofrestru, gall mwy o gystadleuaeth o fewn y farchnad danseilio cynaliadwyedd lleoliadau sefydledig a rhoi pwysau ychwanegol ar ddarpariaeth hyfforddiant y sector, y mae eisoes yn anodd cael gafael arno.

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad nad yw gweithgareddau coetsio a dysgu heb i rieni fod yn bresennol yn addas i blant ifanc iawn oherwydd eu hanghenion gofal a datblygiadol. Nid yw'r opsiwn hwn yn ystyried anghenion gofal a datblygiadol plant ifanc o fewn yr ystod 4 oed ac iau yn ddigonol.

**Opsiwn 3: Eithrio plant 2 oed ac iau o'r eithriad ar gyfer coetsio/dysgu, a diwygio fel y gall plant 3 a 4 oed fynychu am hyd at ddwy awr y dydd (a gwmpaswyd yn Opsiwn 2)**

Yn ogystal ag Opsiwn 2 uchod, mae Opsiwn 3 yn cynnwys na fyddai'r eithriad ar gyfer coetsio a dysgu yn gymwys i blant 2 oed ac iau. Byddai hyn yn golygu na fyddai darparwyr gweithgareddau coetsio a dysgu yn gallu cynnig y gweithgareddau hyn i blant 2 oed ac iau os nad yw eu rhieni yn bresennol heb gofrestru fel darparwr gofal dydd neu weithredu o dan eithriad arall.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os bydd darparwyr yn dymuno parhau i gynnig gweithgareddau coetsio a dysgu i blant 2 oed ac iau am unrhyw gyfnod a/neu blant 4 oed ac iau am gyfnod sy'n fwy na dwy awr y dydd, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag AGC fel darparwr gofal dydd. Mae'n bosibl y bydd AGC, teuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau, fel y nodir yn Atodiad 1.

**Manteision:**
Mae eithrio plant 2 oed ac iau o'r eithriad hwn yn cydnabod eu cam datblygu oherwydd bod angen arferion gofal penodol ar blant 2 oed ac iau, megis newid cewynnau neu gymorth i ddefnyddio'r toiled, amseroedd cysgu a chymorth gyda bwyta. Ni ellir ystyried yn rhesymol fod yr arferion gofal hyn yn rhan achlysurol o goetsio a dysgu. Nododd rhanddeiliaid nad yw'n addas i blant 2 oed ac iau ymgymryd â gweithgareddau coetsio a dysgu heb i'r rhiant fod yn bresennol. Os bydd plant 2 oed ac iau yn mynychu gweithgareddau coetsio a dysgu, bydd y gofyniad i'r darparwr gofrestru yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu'n briodol gan staff â chymwysterau addas. Bydd darparwyr y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru yn sgil y diwygiad yn weladwy i awdurdodau lleol a byddant yn gallu cael cymorth, cydnabyddiaeth a chyllid os yw'n gymwys. Gall cofrestru alluogi darparwyr i gyflwyno rhaglenni a ariennir fel Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant Cymru os ydynt yn cynnig darpariaeth i blant o'r oedrannau perthnasol, a gall alluogi teuluoedd cymwys i hawlio Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol.

Mae'r manteision i blant 3 a 4 oed yr un peth â'r rhai a nodwyd yn opsiwn 2.

**Risgiau:**
Efallai na fydd rhai darparwyr sy'n cynnig coetsio a dysgu i blant 2 oed ac iau neu blant 3 a 4 oed am hyd at bedair awr ar hyn o bryd yn dymuno parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw am gyfnod byrrach o amser, ac felly gallant roi'r gorau i'w darpariaeth i blant o'r oedran hwn. Mae hyn yn peri risg i ddarpariaethau a arweinir gan wirfoddolwyr yn arbennig na fyddant o bosibl yn dymuno ymgymryd â'r costau sy'n gysylltiedig â chofrestru. Gallai hyn leihau'r cyfleoedd i blant 4 oed ac iau ymgymryd â gweithgareddau coetsio a dysgu. Gallai hyn leihau'r dewis i blant a'u rhieni sy'n dymuno i'w plentyn fynychu'r lleoliadau hyn ac effeithio ar gyfleoedd i blant ddysgu am eu ffydd a'u diwylliant o bosibl. Mae'n bosibl y bydd achosion o gwtogi a chau darpariaethau yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd incwm isel, yn ogystal â chymunedau gwledig, Cymraeg a chymunedau eraill lle mae'r ddarpariaeth eisoes yn gyfyngedig. Os bydd darparwyr yn dewis cofrestru, gall mwy o gystadleuaeth o fewn y farchnad danseilio cynaliadwyedd lleoliadau sefydledig a rhoi pwysau ychwanegol ar ddarpariaeth hyfforddiant y sector, y mae eisoes yn anodd cael gafael arno.

## <u>Casgliad</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried costau, manteision a risgiau'r tri opsiwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod manteision opsiwn 3 yn gwrthbwyso risgiau a chostau opsiwn 1 ac opsiwn 2, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r opsiwn hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth gyson o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

## <u>CYNNIG 8</u>

**Ehangu'r eithriadau â chyfyngiad amser i sicrhau na all darparwyr cofrestredig y mae eu cofrestriad wedi'i atal dros dro weithredu o dan yr eithriadau hynny.**

### <u>Opsiwn 1: Gwneud dim</u>

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, gall darparwyr sydd wedi cael eu hatal dros dro, o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”) weithredu o dan yr eithriadau â chyfyngiad amser. Ar hyn o bryd, nid yw'r eithriadau yn darparu'n ffurfiol na all darparwyr cofrestredig sydd wedi'u hatal dros dro weithredu o dan y cyfyngiad o ddwy awr. O dan yr opsiwn hwn, byddai darparwyr y mae eu cofrestriad wedi'i atal dros dro yn gallu parhau i weithredu eu darpariaeth o fewn y cyfyngiadau amser penodedig (er bod eu cofrestriad wedi cael ei atal dros dro gan y rheoleiddiwr) o dan yr eithriadau hyn yn ystod cyfnod eu hataliad:

*Erthygl 4:*
*Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os nad yw'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnodau, yn ystod unrhyw un diwrnod pan fo'r person yn gofalu am blant yn fwy na dwy awr.*

*Erthygl 10:*
*Nid yw person yn darparu gofal dydd os nad yw'r cyfnod neu gyfanswm y cyfnodau pan ofelir am blant mewn mangre, yn ystod unrhyw un diwrnod, yn hwy na dwy awr.*

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Byddai gwneud dim yn caniatáu i ddarparwyr sydd wedi'u hatal dros dro barhau i weithredu am gyfnod cyfyngedig bob dydd.

**Risgiau:**
Gall AGC atal cofrestriad darparwr dros dro pan fydd achos rhesymol dros gredu y gallai un plentyn neu fwy wynebu risg o niwed os bydd y darparwr hwnnw yn parhau i ddarparu gofal, a'i fod yn cael ei atal dros dro at ddiben penodedig. Drwy gadw'r eithriadau heb gyfyngiadau, byddai darparwyr sydd wedi'u hatal dros dro yn gallu addasu eu darpariaeth a pharhau i weithredu am hyd at ddwy awr y dydd o dan yr eithriadau yn ystod cyfnod eu hataliad dros dro. Gallai hyn beri risg i blant.

**<u>Opsiwn 2: Diwygio'r eithriadau sy'n ymwneud â gofal am ddwy awr neu lai fel nad ydynt yn berthnasol pan fydd Arolygiaeth Gofal Cymru wedi atal cofrestriad y darparwr dros dro</u>**

O dan yr opsiwn hwn, os caiff darparwr cofrestredig ei atal dros dro o dan Reoliadau 2010, ni fyddai'n gallu gweithredu o dan yr eithriadau â chyfyngiad amser yn ystod cyfnod eu hataliad dros dro.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, bydd darparwyr y mae eu cofrestriad wedi'i atal dros dro yn colli eu hincwm yn llwyr a gallai eu cyflogeion golli eu swyddi. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i rieni ddod o hyd i ofal plant newydd, ac felly bydd hyn yn cymryd amser a bydd costau ychwanegol posibl.

**Manteision:**
Ni fydd darparwyr sydd wedi'u hatal dros dro yn gallu parhau i weithredu o dan yr eithriadau, ac felly ni fyddant yn gallu cynnig gofal a allai fod yn anniogel i blant.

**Risgiau:**
Gallai'r opsiwn hwn olygu nad oes gan rieni ofal plant o gwbl pe na bai'r darparwr cofrestredig yn gallu gweithredu.

**Casgliad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried costau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod manteision opsiwn dau yn gwrthbwyso'r risgiau a'r costau, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r opsiwn hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth gyson o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**CYNNIG 9**

**Eithriadau mewn perthynas â phlant 2 oed ac iau**

Mae'r opsiynau canlynol yn ystyried newidiadau i'r erthyglau canlynol:

> *Erthygl 4:*
> *Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os nad yw'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnodau, yn ystod unrhyw un diwrnod pan fo'r person yn gofalu am blant yn fwy na dwy awr.*
>
> *Erthygl 10:*
> *Nid yw person yn darparu gofal dydd os nad yw'r cyfnod neu gyfanswm y cyfnodau pan ofelir am blant mewn mangre, yn ystod unrhyw un diwrnod, yn hwy na dwy awr.*
>
> *Erthygl 9:*
> *Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal gan y person hwnnw yn y fangre o dan sylw ar nifer llai na 6 o ddiwrnodau mewn unrhyw flwyddyn galendr, a bod y person hwnnw wedi hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen cyn defnyddio'r fangre o dan sylw am y tro cyntaf yn y flwyddyn honno.*

Yn wreiddiol, ystyriwyd y rhain ochr yn ochr ag:

> *Erthygl 15:*
> *(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir iddo yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddi neu'r dysgu hwnnw.*
>
> *(2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys —*
>
> > *(a)os yw'r plant islaw 5 oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu,*
> > *(b)os yw'r person yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).*
>
> *(3) Y mathau o weithgaredd yw —*
>
> > *(a)chwaraeon;*

*(b)celfyddydau perfformio;*
*(c)celfyddydau a chrefftau;*
*(ch)cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;*
*(d)astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.*

Fodd bynnag, mae hyn bellach yn cael ei ystyried o dan gynnig 7 a dylid darllen y newidiadau hynny ar y cyd â'r rhai a ystyrir isod.

**<u>Opsiwn 1: Gwneud dim</u>**
Byddai gwneud dim yn golygu dim newid i'r erthyglau mewn perthynas â dwy awr y dydd neu lai neu bum diwrnod y flwyddyn neu lai. Ni fyddai gwahaniaeth o ran y trefniadau ar gyfer plant 2 oed ac iau o gwbl.

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Ar hyn o bryd, gall darparwyr gynnig gofal i blant o bob oedran hyd at a chan gynnwys dwy awr y dydd ac am bum diwrnod y flwyddyn heb gofrestru. Gall darparwyr sy'n cynnig gweithgareddau coetsio a dysgu weithredu am hyd at bedair awr y dydd i blant o dan 5 oed. Mae'r eithriadau hyn yn rhoi cyfleoedd i rieni ddefnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn treulio eu hamser fel y dymunant ac i blant ymgolli yn y gweithgareddau. Mae rhai lleoliadau newydd yn defnyddio'r eithriadau hyn i dreialu eu gwasanaeth cyn symud ymlaen i sefydlu darpariaeth gofrestredig neu tra bo eu cais yn cael ei brosesu.

**Risgiau:**
Mae gan blant 2 oed ac iau fwy o anghenion gofal na phlant hŷn. Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryder nad oes trefniadau sicrhau ansawdd i wneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn lleoliadau lle defnyddir yr eithriadau mewn perthynas â gofal sy'n llai na dwy awr y dydd neu am bum diwrnod neu lai y flwyddyn.

**<u>Opsiwn 2: Diwygio'r eithriadau sy'n ymwneud â dwy awr a phum diwrnod fel eu bod yn eithrio darpariaeth dim ond pan fydd yr holl blant sy'n mynychu lleoliad yn 3 oed a throsodd</u>**

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r eithriadau sy'n ymwneud â dwy awr a phum diwrnod yn cael eu diwygio fel eu bod ond yn gymwys pan fydd y darparwr yn gofalu am blant 3 oed a throsodd.

Mae'r cynigion hyn yn ychwanegol at gynigion 7 ac 8 uchod. Er na chafodd y cynigion hyn eu cynnwys yng Ngorchymyn drafft 2026 a oedd yn rhan o'r pecyn ymgynghori, a oedd ar agor rhwng 11 Awst a 3 Tachwedd 2026, ceisiodd Llywodraeth Cymru farn y cyhoedd am y newidiadau posibl hyn fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os bydd darparwyr yn dymuno parhau i ofalu am blant 2 oed ac iau, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag AGC fel darparwr gofal dydd. Mae'n bosibl y bydd AGC, teuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau, fel y nodir yn Atodiad 1.

**Manteision:**
Mae dileu'r opsiwn i blant 2 oed ac iau fynychu darpariaeth anghofrestredig yn cydnabod eu cam datblygu a'u hanghenion gofal cynyddol. Bydd yn ofynnol i unrhyw ddarparwyr sy'n parhau i gynnig gofal i blant o'r oedran hwn gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd, ac felly byddant yn cael eu harolygu i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ansawdd. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni bod anghenion eu plant yn cael eu diwallu'n briodol gan staff â chymwysterau addas. Mae'n bosibl y gallai ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gofal plant ar gyfer plant 2 oed ac iau gofrestru beri iddynt addasu eu darpariaeth fel eu bod yn gweithredu am gyfnodau hirach gan na fyddent yn gyfyngedig i ddwy awr neu bum diwrnod mwyach. Gall cofrestru alluogi darparwyr i gyflwyno rhaglenni a ariennir fel Cynnig Gofal Plant Cymru a Dechrau'n Deg os ydynt yn cynnig darpariaeth i blant o'r oedrannau perthnasol, a gall alluogi teuluoedd cymwys i hawlio Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol, os bydd y darparwr yn penderfynu addasu ei ddarpariaeth er mwyn gweithredu am gyfnod hwy. Bydd darparwyr y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru yn sgil y diwygiad yn weladwy i awdurdodau lleol a byddant yn gallu cael cymorth, cydnabyddiaeth a chyllid os yw'n gymwys.

**Risgiau:**
Gall ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gofrestru os oes plant 2 oed ac iau yn eu mynychu olygu y bydd llai o ddarpariaeth ar gael. Efallai na fydd darparwyr sy'n cynnig y gofal hwn yn fodlon neu'n gallu ymgymryd â baich cofrestru, ac felly gallant gau eu darpariaeth neu barhau i weithredu ar gyfer plant 3 oed a throsodd yn unig. Mae'r risgiau hyn yn arbennig o acíwt i ddarpariaethau a arweinir gan wirfoddolwyr, lle mae'n bosibl na fydd darparwyr yn dymuno ymgymryd â'r costau a'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chofrestru.

Gallai hyn leihau'r opsiynau i blant 2 oed ac iau, gan gyfyngu ar gyfleoedd cymdeithasol a datblygiadol a chael effaith negyddol ar les plant. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn cael effaith ar les teuluoedd lle byddai darpariaethau sy'n gweithredu o dan yr eithriadau hyn—megis crèches sy'n cynnig gofal tra bo rhieni neu ofalwyr yn ymgymryd ag addysg, gweithgareddau crefyddol neu sesiynau lles—yn gorfod cofrestru ac yn rhoi'r gorau i weithredu o bosibl. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi nodi risgiau penodol lle byddai'r newidiadau hyn yn cyfyngu ar allu rhieni a gofalwyr i fynychu gweithgareddau crefyddol.

Byddai llai o ddarpariaeth yn golygu bod llai o ddewis i blant a'u rhieni. Mae'n bosibl y bydd achosion o gwtogi a chau lleoliadau yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd incwm isel, yn ogystal â chymunedau gwledig, Cymraeg a chymunedau eraill lle mae'r ddarpariaeth eisoes yn gyfyngedig.

Os bydd darparwyr yn dewis cofrestru, mae'n bosibl y bydd y gystadleuaeth gynyddol o fewn y farchnad yn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau sefydledig

ac yn rhoi mwy o bwysau ar ddarpariaeth hyfforddiant y sector, y mae eisoes yn anodd cael gafael arno.

Yn ogystal, byddai lleoliadau newydd yn colli'r cyfle i ddefnyddio'r eithriadau hyn i brofi'r farchnad cyn gwneud cais i gofrestru neu tra bo eu cais yn cael ei brosesu. Gall hyn atal darparwyr rhag agor lleoliadau newydd os na allant ganfod yn gyntaf a fyddai eu gwasanaeth yn gynaliadwy. Risg arall yw y gall y costau gweithredu cynyddol sy'n gysylltiedig â rhedeg lleoliad cofrestredig gael eu trosglwyddo i deuluoedd, gan wneud y ddarpariaeth yn llai fforddiadwy a hygyrch.

**Opsiwn 3: Diwygio'r eithriadau sy'n ymwneud â dwy awr a phum diwrnod fel eu bod yn eithrio darpariaeth dim ond pan fydd yr holl blant sy'n mynychu lleoliad yn 3 oed a throsodd, oni bai fod y rhiant yn aros ar y safle (ond heb fod yn bresennol yn ystod y sesiwn) a'i fod yn gallu parhau i ofalu am y plentyn heb oedi gormodol**

O dan yr opsiwn hwn, bydd yr eithriadau sy'n ymwneud â dwy awr a phum diwrnod yn cael eu diwygio fel na fyddent yn gymwys os bydd y darparwr yn gofalu am blant 2 oed ac iau, oni bai fod y rhiant yn aros ar y safle (ond heb fod yn bresennol yn ystod y sesiwn). Felly ni fyddai'n ofynnol i crèche sy'n gofalu am blant 2 oed ac iau gofrestru os yw'r rhieni yn aros ar y safle ehangach am y sesiwn ofal gyfan ond nid yn yr ardal lle mae'r plentyn yn cael gofal. Nodir hefyd y bydd y rhiant yn gallu parhau i ofalu am y plentyn ar gais y darparwr.

Mae'r cynigion hyn yn ychwanegol at gynigion 7 ac 8. Er na chafodd y cynigion hyn eu cynnwys yng Ngorchymyn drafft 2026 ei hun, ceisiodd Llywodraeth Cymru farn y cyhoedd am y newidiadau posibl hyn fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os bydd darparwyr yn dymuno parhau i ofalu am blant 2 oed ac iau heb i'r rheini fod yn bresennol ar y safle, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag AGC fel darparwr gofal dydd. Mae'n bosibl y bydd AGC, teuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr a Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau, fel y nodir yn Atodiad 1.

Os bydd y rhiant yn aros ar y safle ac yn gallu parhau i ofalu am y plentyn ar gais y darparwr, ni nodwyd unrhyw oblygiadau o ran cost ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Manteision:**
Mae dileu'r opsiwn i blant 2 oed ac iau fynychu darpariaeth anghofrestredig yn cydnabod eu cam datblygu a'u hanghenion gofal cynyddol. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni bod anghenion eu plant yn cael eu diwallu'n briodol gan staff â chymwysterau addas.

Fodd bynnag, mae darparwyr sy'n cynnig gofal i blant 2 oed ac iau tra bydd eu rhieni yn ymgymryd, er enghraifft, â gweithgareddau diwylliannol, addysgol neu les ar yr un safle. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i'r darparwyr hynny barhau i weithredu heb orfod cofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur ar yr amod bod y rhieni ar

y safle ac y gall y rhiant barhau i ofalu am y plentyn heb oedi gormodol ar gais y darparwr.

Byddai caniatáu i'r math hwn o ddarpariaeth barhau heb y gofyniad i gofrestru yn cefnogi lles plant a theuluoedd. Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r farn bod trefniant lle mae rhiant yn aros ar y safle yn rhoi dewis i rieni ac yn cynnig rhywfaint o sicrwydd iddynt gan y byddent gerllaw i roi sylw i'w plentyn pe bai angen.

**Risgiau:**
Gallai galluogi darparwyr i ofalu am blant 2 oed ac iau heb iddi fod yn ofynnol iddynt gofrestru, pan fydd y rhieni ar y safle ac yn gallu parhau i ofalu am y plentyn heb oedi gormodol, arwain at anghysondeb wrth ddehongli'r rheolau. Gallai sicrhau bod rhiant yn aros ar y safle fod yn rhywbeth anodd i'w weithredu, a gallai diffiniad addas o safle amrywio ymhlith ystod o ddarparwyr. Nododd rhai ymatebwyr fod gofynion gofal y plentyn a lefel y risg yr un peth pan fydd rhiant ar y safle ond nid yn bresennol, ac felly y dylai fod angen i ddarparwyr gofrestru.

## Casgliad

Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r opsiynau, cyn yr ymgynghoriad, nid oedd gan Lywodraeth Cymru opsiwn a ffefrir.  Defnyddiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu gwybodaeth a barn gan y cyhoedd ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig, gan geisio gwybodaeth am resymeg eu barn ac effaith bosibl y newid arfaethedig hwn.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i ddadansoddi'r wybodaeth hon ar ôl yr ymgynghoriad a nododd fod manteision Opsiwn 3 yn gorbwyso'r risgiau a'r costau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Opsiwn 3 yn lliniaru'r pryderon a godwyd gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad mewn perthynas â gweithgareddau megis crèches mewn eglwysi, lle mae rhieni/gofalwyr gerllaw ond nid yn yr ystafell. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen ag Opsiwn 3. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth gyson o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

## ASESU'R GYSTADLEUAETH

Mae prawf hidlo’r gystadleuaeth wedi cael ei gwblhau. Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r eithriadau arfaethedig, fel y'u cyflwynir yng Ngorchymyn 2026, gael effaith negyddol ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd y rhan fwyaf o fusnesau. Mae'r sector yn cynnwys mentrau bach a chanolig, gyda rhywfaint o ddarpariaeth hefyd yn cael ei chyflwyno drwy'r sectorau gwirfoddol ac elusennol. Nid oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad, ac mae gan y tri chwmni mwyaf ar y cyd lai na 50% o gyfran y farchnad. Nid yw'r sector yn profi newid technolegol cyflym.

Gallai'r cynigion effeithio ar rai darparwyr drwy olygu ei bod yn ofynnol iddynt gofrestru o dan y Mesur, ac y byddant felly yn mynd i gostau sy'n ymwneud â'r

galwadau ychwanegol i fodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliadau 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Gall darparwyr eraill addasu eu darpariaeth er mwyn sicrhau bod eithriad yn berthnasol iddynt ac y byddant felly'n osgoi'r gofyniad i gofrestru neu gau eu darpariaeth os nad ydynt yn dymuno addasu eu darpariaeth neu gofrestru. Gallai hyn arwain at rywfaint o gwtogi mewn rhai rhannau o'r farchnad. Fodd bynnag, ni fyddai costau sefydlu a chostau rheolaidd ar gyfer darparwyr posibl neu newydd yn uwch na chostau'r darparwyr cofrestredig presennol. Byddai unrhyw gostau ychwanegol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob darparwr a'r addasiadau y byddai'n ofynnol iddo eu gwneud er mwyn bodloni gofynion rheoleiddio cofrestru.

## ASESIADAU EFFAITH INTEGREDIG

Mae pob Asesiad Effaith Integredig sydd wedi'i gyhoeddi wedi cael ei ddiweddaru er mwyn ystyried yr effeithiau a nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd y rhain ar gael i'w gweld yn: https://www.llyw.cymru/eithriadau-o-ran-cofrestru-gofal-plant-ar-cynnig-ar-gyfer-cynllun-cymeradwyo-gwirfoddol-asesiad

## ADOLYGIAD ÔL-WEITHREDU

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr wybodaeth a gasglwyd a barn y cyhoedd ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig. Dadansoddwyd yr wybodaeth hon ac mae Gorchymyn drafft 2026 wedi cael ei ddiwygio ymhellach er mwyn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu unwaith y caiff Gorchymyn 2026 ei wneud, gan gwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2026 a mis Ebrill 2027, er mwyn sicrhau bod y sector a'r cyhoedd yn gwbl barod i Orchymyn 2026 ddod i rym ym mis Ebrill 2027. Mae'r cynllun gweithredu yn ofynnol er mwyn nodi'r camau ymarferol sydd eu hangen i gefnogi proses gyflawni effeithiol, nodi a rheoli risgiau, a sicrhau bod gan randdeiliaid yr wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r gofynion newydd. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff canllawiau eu datblygu i helpu pobl i ddeall y Gorchymyn ynghyd â chamau codi ymwybyddiaeth i gefnogi'r sector drwy'r cyfnod trosiannol.

Bydd cyfnod trosiannol o 12 mis rhwng mis Ebrill 2027 a mis Ebrill 2028 i helpu'r sector i addasu i'r gofynion newydd. Erbyn mis Ebrill 2028, disgwylir y bydd darparwyr y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru yn sgil y newidiadau wedi gwneud cais i gofrestru ac os bydd AGC o'r farn bod darparwr yn gweithredu heb gofrestriad ar ôl y dyddiad hwn, gellir cymryd camau gorfodi.

Cynhelir adolygiad canol cyfnod yn hydref 2027 i asesu effeithiau cychwynnol y newidiadau a nodi unrhyw faterion y mae angen eu hegluro ymhellach. Cynhelir adolygiad pellach ar ddiwedd y flwyddyn drosiannol, gan gyd-fynd â'r dyddiad y bydd y Gorchymyn yn gwbl orfodadwy ym mis Ebrill 2028. Ystyrir cynnal adolygiadau ychwanegol a gaiff eu trefnu ar adegau priodol ar ôl hynny er mwyn

sicrhau bod y Gorchymyn yn parhau i weithredu'n effeithiol ac i lywio unrhyw welliannau yn y dyfodol.

**Atodiad 1**

Costau i randdeiliaid sy'n ymwneud â chynigion unigol 1, 4, 5, 7 a 9, lle gall fod yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru yn sgil y newidiadau, neu lle byddant yn dewis addasu eu darpariaeth er mwyn cofrestru:

| **Rhanddeiliad** | **Costau** |
|---|---|
| AGC | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi amcangyfrif y costau a fydd yn gysylltiedig â chofrestru rhagor o ddarparwyr o ganlyniad i'r cynigion. Fodd bynnag, mae'n anodd rhagfynegi faint sy'n debygol o gofrestru. O ganlyniad, mae amcangyfrif dangosol wedi cael ei ddefnyddio i gyfrifo costau posibl, yn seiliedig ar 163 o ddarparwyr sy'n cynrychioli 5% o'r gofrestr gwarchod plant a gofal dydd bresennol:<br><br>- Blwyddyn 1 2026-27 - £108,000 – cynllunio ar gyfer gweithredu<br>- Blwyddyn 2 2027-28 - £300,500 – cyfnod trosiannol<br>- Blwyddyn 3 2028-29 - £365,400 – camau gorfodi llawn<br><br>Yn unol ag Egwyddor 10 o adran 2.6 o'r Datganiad o Bolisi Ariannu, byddai Llywodraeth y DU ond yn talu costau Gofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol ar gyfer darpariaeth yng Nghymru sy'n cyd-fynd â darpariaeth gymwys yn Lloegr. Er mwyn sicrhau y gall AGC nodi darpariaethau a gofrestrwyd yng Nghymru nad ydynt yn gymwys ar gyfer y cynlluniau hyn gan Lywodraeth y DU, bydd angen diwygio systemau digidol AGC. |
| Teuluoedd | Os bydd angen i ddarparwyr dalu costau cofrestru a chostau parhaus er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliadau 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, mae'n bosibl y byddant yn trosglwyddo'r rhain i deuluoedd drwy godi ffioedd. |
| Awdurdodau lleol | Mae'n bosibl y bydd costau o ran amser i awdurdodau lleol oherwydd y llwyth gwaith cynyddol o ganlyniad i'w rôl yn cefnogi darparwyr anghofrestredig y mae'n ofynnol iddynt gofrestru yn sgil y newidiadau.<br><br>Mae'n bosibl y bydd mwy o alw am hyfforddiant gorfodol a ddarperir gan yr awdurdod lleol a/neu a gomisiynir. Bydd cost hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yn dibynnu ar y ffordd y maent yn darparu hyfforddiant, a oes cyllid ar gael drwy Raglen Hyfforddiant a Chymorth y Grant Plant a Chymunedau, a oes unrhyw gostau yn daladwy gan ddarparwyr, a nifer y darparwyr y mae'n ofynnol iddynt gofrestru. |

| | |
|---|---|
| | Enghreifftiau o gostau y gallai awdurdodau lleol fynd iddynt er mwyn ateb y galw cynyddol am hyfforddiant gorfodol gan ei bod yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru yn sgil y newidiadau:<br>• Cymorth Cyntaf Pediatrig - 2 Ddiwrnod – 12 person - £785<br>• Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys - 1 Diwrnod – 12 person - £595<br>• Diogelu Grŵp B – 24 o bobl - £650<br>• Diogelu Grŵp C – 20 o bobl - £1,250<br><br>Noder: ni fyddai'n ofynnol i bob aelod o staff mewn lleoliad gwblhau pob un o'r cyrsiau hyfforddiant a restrir uchod. Byddai angen i leoliadau lynu wrth y gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff mewn lleoliadau cofrestredig a amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. |
| Darparwyr | Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliadau 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, efallai y bydd angen i ddarparwyr addasu elfennau o'u darpariaeth. Bydd cost ariannol a chost o ran amser am hyn. Bydd yr addasiadau sy'n ofynnol yn amrywio ar draws darparwyr, yn dibynnu ar eu model gweithredu presennol, cymwysterau staff ac addasrwydd y safle. Felly, mae'n anodd amcangyfrif cost y cynnig hwn ledled Cymru.<br><br>Caiff ffigurau yn ymwneud â'r costau posibl i ddarparwr anghofrestredig gofrestru eu cyflwyno yn Atodiad 2.<br><br>Os bydd lleoliad eisoes yn gweithredu yn unol â Rheoliadau 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, yr unig gostau y gall y lleoliad fynd iddynt yw cael geirda meddygol a thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os nad oes gan y lleoliad un sydd wedi'i ddyddio o fewn y tri mis diwethaf, neu nad yw'n tanysgrifio i wasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. I'r gwrthwyneb, mae'r ffigurau yn awgrymu y bydd mwy o gostau i ddarparwr sydd angen gwneud addasiadau sylweddol i'w ddarpariaeth er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol hyn. Mae'r amrywiad sylweddol hwn yn seiliedig ar ystod eang o newidynnau a'r cyfyngiad o fod yn ddibynnol ar sefyllfa benodol pob darparwr. |
| Llywodraeth y DU<br>(Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi / Yr Adran Gwaith a Phensiynau) | Gall cynnydd posibl mewn darpariaethau cofrestredig sy'n gymwys ar gyfer cynlluniau cymorth gofal plant Llywodraeth y DU (Gofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol) arwain at fwy o alw am y cynlluniau hyn gan rieni cymwys.<br><br>Gall y newidiadau i'r eithriadau olygu ei bod yn ofynnol i fwy o ddarparwyr gofrestru. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw ddarparwr sy'n cofrestru o ganlyniad i Orchymyn 2026 sydd â darpariaeth |

| | |
|---|---|
| | nad yw'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth gymwys yn Lloegr yn gallu cynnig Gofal Plant Di-dreth na Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Caiff y darparwyr hyn eu nodi a'u hidlo gan AGC cyn i'w manylion gael eu trosglwyddo i CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau fel darparwyr cymwys. |
| Llywodraeth Cymru | Caiff y costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau AGC eu cwmpasu yn y cofnod sy'n ymwneud ag AGC uchod.<br><br>Mae darparwyr gofal plant cofrestredig yn gymwys i gael cyllid grantiau cyfalaf bach drwy awdurdodau lleol o dan Raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'n bosibl y bydd mwy o alw am grantiau Llywodraeth Cymru os bydd nifer y darparwyr sy'n cofrestru yn cynyddu. Os bydd y niferoedd sy'n cofrestru yn cynyddu'n sylweddol ar draws pob awdurdod lleol, heb gyllid ychwanegol, byddai llai o gyllid ar gael i leoliadau. Mae'n bosibl y rhoddir pwysau tebyg ar y grant gofal plant a chwarae o dan y Grant Plant a Chymunedau.<br><br>Cynnydd posibl yn y cyflenwad o ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg, os bydd darparwyr ychwanegol yn cofrestru ac yn gymwys i ddarparu'r cynlluniau hyn. Gall hyn alluogi mwy o deuluoedd i gael darpariaeth os bydd diffyg darpariaeth wedi bod yn ffactor cyfyngol. Os mai dyma fyddai'r achos, gallai hyn wedyn gynyddu'r cyllid a gaiff ei wario gan awdurdodau lleol ar ddarpariaeth, a allai arwain at gostau cynyddol i Lywodraeth Cymru, ond o fewn terfynau ehangach y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol ar gyfer Rhaglen Ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg.<br><br>Cynnydd posibl yn y cyflenwad o ddarpariaeth sydd wedi'i chofrestru i ddarparu Cynnig Gofal Plant Cymru, os bydd darparwyr ychwanegol yn cofrestru ac yn gymwys i ddarparu'r cynlluniau hyn. Gall hyn alluogi mwy o deuluoedd i gael darpariaeth os bydd diffyg darpariaeth wedi bod yn ffactor cyfyngol. Os mai dyma fyddai'r achos, gallai hyn wedyn gynyddu'r cyllid a gaiff ei wario gan gyllideb seiliedig ar alw Llywodraeth Cymru. |

**Atodiad 2**

Enghreifftiau o addasiadau y gall fod yn ofynnol i ddarparwyr eu gwneud i'w darpariaeth ynghyd â chostau y gellid mynd iddynt o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig:

| **Gofyniad** | **Cost (Ariannol ac Amser)** |
|---|---|
| Cymwysterau | Efallai y bydd yn ofynnol i staff ymgymryd â chymwysterau i fodloni'r gofynion a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir<br><br>Costau ariannol amrywiol yn dibynnu ar y cymhwyster sy'n ofynnol ac ar y cyllid sydd ar gael<br><br>Hefyd costau amser sy'n ymwneud â'r cyfnod o amser sydd ei angen i staff ymgymryd â'r hyfforddiant a nodwyd |
| Recriwtio | Amcangyfrifir cost o £200 i hysbysebu ar gyfer staff newydd |
| Cymarebau / Recriwtio Staff | Efallai y bydd angen staff ychwanegol i fodloni'r cymarebau gofynnol a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir<br><br>Cyfradd fesul awr tua £13 |
| Hyfforddiant diogelu | Bydd angen hyfforddiant diogelu ar bob aelod o staff ar lefel a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir<br><br>Costau ariannol yn amrywio o £0 i £180, yn dibynnu ar y lefel o hyfforddiant sy'n ofynnol ac ar y cyllid sydd ar gael – costau parhaus er mwyn adnewyddu<br><br>Cost yr amser a dreulir i ymgymryd â hyfforddiant |
| Hyfforddiant hylendid bwyd | Bydd angen hyfforddiant hylendid bwyd ar y rhai sy'n gyfrifol am baratoi a thrin bwyd<br><br>Costau ariannol yn amrywio o £0 i £30 yn dibynnu ar y darparwr ac ar y cyllid sydd ar gael – costau parhaus er mwyn adnewyddu<br><br>Cost yr amser a dreulir i ymgymryd â hyfforddiant |
| Hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig | Mae angen cymhwyster cymorth cyntaf pediatrig ar bob aelod o staff ar lefel a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir<br><br>Costau ariannol yn amrywio o £0 i £132 yn dibynnu ar gyllid a hygyrchedd – costau parhaus er mwyn adnewyddu.<br><br>Cost yr amser a dreulir i ymgymryd â hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | £54.50 - £65 fesul aelod o staff - costau parhaus er mwyn adnewyddu |
| Gwiriad meddygol | Tua £50 – mae'r costau'n amrywio yn ôl y feddygfa |
| Addasu adeiladau | Costau ariannol amrywiol yn dibynnu ar y sefyllfa<br><br>Gallai'r costau gynnwys y canlynol (ymhlith pethau eraill):<br>• Gofynion iechyd yr amgylchedd<br>• Gosod offer diogelwch tân ychwanegol<br>• Toiledau/sinciau ychwanegol |
| Yswiriant – adeilad a cherbyd | Bydd yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr a lefel yr yswiriant sydd ei hangen - cost barhaus - amcangyfrif o £600 y flwyddyn |
| Yswiriant – atebolrwydd cyhoeddus | Bydd yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr a lefel yr yswiriant sydd ei hangen - cost barhaus |
| Tystysgrif gwiriad diogelwch system wresogi | Tua £100 y flwyddyn |
| Cofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | £52 - £78 y flwyddyn |
| Statws Cyfreithiol | O £0 i £65 yn dibynnu ar y statws cyfreithiol a ddewiswyd i weithredu oddi tano |
| Adnoddau (Ddim yn orfodol) | Amcangyfrif o £5000 fel cost untro gyda chyllideb flynyddol ar gyfer ôl traul<br><br>Gallai'r costau gynnwys y canlynol (ymhlith pethau eraill):<br>• Cyfarpar cegin<br>• Storfa y gellir ei chloi<br>• TG<br>• Disgwylir i adnoddau chwarae fod o safon benodol ac iddynt gael eu newid yn amlach |
| Cymorth gan gyrff ymbarél (Ddim yn orfodol) | O £0 i £300 y flwyddyn |
| Aelodaeth corff ymbarél (Ddim yn orfodol) | Amrywiol – o £30 i £155 y flwyddyn |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau cyfrifyddiaeth (Ddim yn orfodol) | Amcangyfrif o £500 y flwyddyn |
| Ffeilio adroddiadau / cyfrifon (Ddim yn orfodol) | O £0 i £62 y flwyddyn |

Ffynhonnell: Ffigurau a ddarparwyd gan Coram PACEY Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru a Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru